# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen

# Canfyddiadau Allweddol ynglŷn â barn Ymarferwyr a Rhanddeiliaid am ddyfodol y Cyfnod Sylfaen

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 09/2015

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn darparu cwricwlwm dysgu trwy brofiad sy'n briodol yn ddatblygiadol i blant 3-7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (a arweiniwyd gan WISERD) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yw gwerthuso pa mor dda y mae'n cael ei roi ar waith, pa effaith y mae wedi'i chael, a ffyrdd y gellir ei wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio ystod o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Mae'r papur hwn yn un o bedwar sy'n canolbwyntio ar **effaith**. Mae'n defnyddio 239 o arsylwadau ystafell ddosbarth/lleoliad, 341 o gyfweliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion i arolwg gan ysgolion/lleoliadau, 1,008 o ymatebion i arolwg gan rieni/gofalwyr, 37 o gyfweliadau ag Awdurdodau Lleol a phedwar cyfweliad â sefydliadau nas cynhelir.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau Allweddol**

- Hoffai'r mwyafrif helaeth o ymarferwyr a rhanddeiliaid weld y Cyfnod Sylfaen yn **parhau fel ag y mae i raddau helaeth**, gan eu bod wedi ymrwymo iddo ac yn ei werthfawrogi.

- Er gwaethaf y gefnogaeth hon, mae gan ysgolion a chynghorwyr Awdurdodau Lleol yn arbennig bryderon am ddyfodol y Cyfnod Sylfaen (e.e. **blaenoriaethau polisi sy'n newid, diffyg cymorth** ac **ansicrwydd wrth symud ymlaen**).

- Yn arbennig, mae llawer o ysgolion o'r farn bod angen i **gyllid**, **eglurder arweiniad**, **gweithdrefnau asesu** a **throsglwyddo i Gyfnod Allweddol 2** gael eu gwella yn y dyfodol, ynghyd â **dealltwriaeth ymarferwyr** o egwyddorion allweddol y Cyfnod Sylfaen.

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion o'r farn bod cyflwyno profion darllen a rhifedd Blwyddyn 2 yn ddiweddar yn mynd yn groes i gysyniad gwreiddiol y Cyfnod Sylfaen, ac yn dystiolaeth o **newid tuag at asesu seiliedig ar oedran**.

- Yn gyffredinol, mae **lleoliadau a ariennir nas cynhelir** yn llai pryderus ynglŷn â dyfodol y Cyfnod Sylfaen nag ysgolion.

**Canfyddiadau Allweddol Ychwanegol**

Roedd y lefel uchel o gefnogaeth i'r Cyfnod Sylfaen yn aml wedi'i mynegi trwy gefnogaeth gyffredinol i gwricwlwm sy'n 'Briodol yn Ddatblygiadol' i'r blynyddoedd cynnar. Yn arbennig, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid yn hoffi'r 'parch cyfartal' a roddir i Lythrennedd/Rhifedd a Datblygiad Personol/Cymdeithasol.

Er bod lefel uchel o gefnogaeth i'r Cyfnod Sylfaen, prif bwyslais yr adroddiad hwn yw barn ymarferwyr/rhanddeiliaid am yr hyn y gellid ei wella wrth symud ymlaen[1].

*Blaenoriaethau polisi*

Mae cyflwyno profion darllen a rhifedd Blwyddyn 2 yn ddiweddar wedi peri i oddeutu un rhan o bump o ymarferwyr a rhanddeiliaid gredu bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei 'ddileu'n raddol' (o leiaf ym Mlynyddoedd 1 a 2), ac wedi creu cryn dipyn o **ansicrwydd a thensiwn** ynglŷn â'r cydbwysedd a ffafrir rhwng addysgu 'ffurfiol' ac 'anffurfiol'.

Dywedodd tua un rhan o bump o ymarferwyr hefyd fod **'negeseuon cymysg'** wedi arwain at bryderon y bydd y cyllid cymhareb oedolyn:plant yn cael ei dorri'n fuan, gan olygu na fyddant yn gallu gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn y modd a fwriadwyd yn wreiddiol mwyach.

Dim ond 24% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg penaethiaid oedd yn credu bod y Cyfnod Sylfaen yn 'dal i fod yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru', tra bod 65% yn credu: **'er bod y Cyfnod Sylfaen yn dal i fod yn bwysig i Lywodraeth Cymru, bod ganddynt flaenoriaethau eraill'** (roedd 7% o'r farn 'nad oedd y Cyfnod Sylfaen yn bwysig i Lywodraeth Cymru mwyach').

Yn y cyd-destun hwn, siaradodd y rhan fwyaf o ymarferwyr a rhanddeiliaid ynglŷn â'r angen am **arweinyddiaeth eglur** gan Lywodraeth Cymru.

*Meysydd cyffredinol i'w gwella*

**Cyllid** oedd y prif beth yr hoffai'r rhai a ymatebodd o ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir ei newid am y Cyfnod Sylfaen (er bod y cyfweledigion o Awdurdodau Lleol yn teimlo'n gyffredinol bod Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o gyllid).

Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid Awdurdodau Lleol yn teimlo mai cyfyngedig yw dealltwriaeth ymarferwyr o rôl **dysgu a**

[1] Casglwyd amryw ffynonellau gwybodaeth rhwng mis Mai 2012 a mis Chwefror 2014 ac maent yn adlewyrchu'r safbwyntiau penodol a fynegwyd bryd hynny.

**arweinir gan y plentyn, arsylwi** a **dysgu yn yr awyr agored**.

Mae rhai rhwystrau allweddol yn cynnwys **cyfyngiadau adeiladau**, **diffyg ymgysylltiad rhieni, cymwysterau isel staff** a **throsiant uchel staff** (adroddwyd am y ddau olaf yn fwy gan leoliadau a ariennir nas cynhelir).

Hoffai 40% o'r rhai a ymatebodd i'r arolygon penaethiaid a llawer o gyfweledigion Awdurdodau Lleol weld gwelliannau i **ddeunyddiau ategol** y Cyfnod Sylfaen er mwyn darparu mwy o eglurder (e.e. beth a olygir gan y term 'chwarae'?).

Hoffai llawer o ymarferwyr a rhanddeiliaid weld gwelliannau'n cael eu gwneud i **asesu** yn y Cyfnod Sylfaen (e.e. dilyniant a pharhad eglur o linell sylfaen i ganlyniadau).

Hoffai nifer o ymarferwyr a rhanddeiliaid weld gwelliannau'n cael eu gwneud o ran **trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2** (e.e. rhagor o arweiniad ar sut a phryd i ddechrau cefnogi'r broses hon).

*Materion eraill mwy cyffredinol*

Roedd rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid o'r farn nad oedd y Cyfnod Sylfaen yn cael digon o sylw yn ystod **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**.

Nododd rhai ymarferwyr a rhanddeiliaid hefyd fod angen canolbwyntio mwy ar leihau effaith **tlodi** ar ganlyniadau, cynyddu **presenoldeb** disgyblion a gwella sgiliau **llythrennedd a rhifedd**. Fodd bynnag, nid yw hyn yn unigryw i'r Cyfnod Sylfaen.

Thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweliadau ag ymarferwyr a rhanddeiliaid oedd y **teimlad ei bod yn rhy fuan i wneud newidiadau mawr i'r Cyfnod Sylfaen** gan fod angen mwy o amser i weld pa effaith y gallai fod yn ei chael ai peidio.

Awduron: Samuel Waldron, Mirain Rhys, Chris Taylor (Prifysgol Caerdydd).

ISBN: 978-1-4734-2847-8

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 4 Chwefror 2015
© Hawlfraint y Goron 2015

Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall.

http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/